# Cymru



**Uchod:** Aberhonddu, Camlas Mynwy ac Aberhonddu

## Ym mis Hydref, derbyniodd camlesi Maldwyn a Llangollen gyllid gwerth dros £15.4 miliwn o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

Dyma'r buddsoddiad unigol mwyaf mewn gwella a sicrhau dyfodol hirdymor camlesi yng Nghymru. Bydd y prosiectau i adfer darn o Gamlas Maldwyn a sicrhau gwelliannau i ymwelwyr ar hyd Camlas Llangollen yn cael eu darparu mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ddinbych, Solutia ac amrywiaeth o bartneriaid a gwirfoddolwyr. Bydd y buddsoddiad o fudd i bobl leol, treftadaeth a byd natur, y miloedd o gychwyr ac ymwelwyr sy'n dod i Gymru bob blwyddyn, ac yn dod â budd economaidd i drefi a phentrefi cyfagos. Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar barhau â'r gwaith o adfer Camlas Maldwyn o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn Llanymynech hyd at yr Arddlin, a gwella mynediad ymwelwyr at y darn 11 milltir o Gamlas Llangollen, sy'n Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.

Cwblhaodd Cyngor Abertawe waith i ailosod wyneb y llwybr tynnu ar Gamlas Abertawe o ffin y Sir hyd at Barc Coed Gwilym. Derbyniodd y gwaith gyllid Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, ac mae'n cysylltu â darn sydd eisoes wedi'i wella gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot.

Ail-agorwyd ein Canolfan Ymwelwyr ym Masn Trefor ar Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte, a chroesawyd dros 30,000 o ymwelwyr, gan gynnwys dros 4,500 o blant. Ymwelodd dros 300,000 o bobl â Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Yn y Ganolfan, cynhaliwyd digwyddiadau rheolaidd gan ddod â phobl i lan y dŵr at ddibenion iechyd a lles, ac fe wnaethom ni ailddechrau ein rhaglen addysg Fforio Ysgolion yn y Gogledd.





Ym mis Chwefror, fe aethom ati i ailddechrau ein rhaglen Gwreiddiau Cymunedol yn Nhorfaen. Dros y tair blynedd nesaf, bydd y rhaglen hon yn darparu ystod o weithgareddau cymunedol, digwyddiadau a chyfleoedd llesiant sy'n canolbwyntio ar Fasn Pont-y-moel.

Mae gwaith wedi parhau gyda chydweithwyr ledled yr Ymddiriedolaeth i gyflawni ein hymrwymiad i'r Gymraeg a datblygu mwy o ddeunyddiau dwyieithog, gan gynnwys tystysgrif Ceidwad Lociau lau ddwyieithog.

Fel rhan o brosiect 'pont dros y ddôl' Pont-y-Ddôl, buom yn gweithio gyda'r artist Rebecca Chesney i blannu dôl o flodau i fywyd gwyllt ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu i'r de o Fasn Pont-y-moel. Plannwyd blodau brodorol, gan greu rhubanau o liw ar hyd ymyl y dŵr sy'n darparu cynefin a bwyd ar gyfer amrywiaeth o bryfed. Mae newidiadau wedi'u cyflwyno i drefn torri gwair yr Ymddiriedolaeth, gan dorri dim ond stribyn cul bob ochr i'r llwybr tynnu er mwyn cynyddu cynefin a bioamrywiaeth. Cynhyrchodd Rebecca becynnau monitro fel bod pobl yn gallu cofnodi'r planhigion a'r pryfed a welwyd a nodi sut mae'r hyn maen nhw'n ei weld a'i glywed yn effeithio ar eu hwyliau. Cyflwynwyd y prosiect mewn partneriaeth â'r sefydliad celfyddydau, Peak Cymru, a chwmni buddiant cymunedol In Our Nature, gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru, Ymddiriedolaeth Colwinston, a Chelfyddydau a Busnes Cymru. Darparwyd y planhigion gan Habitat Aid.

Ym mis Ebrill, fe lansiwyd ein tri llwybr cerdded dwyieithog 'Cam wrth Gam' ar hyd Camlas Mynwy ac Aberhonddu, sy'n canolbwyntio ar fasnau Aberhonddu a Phont-y-moel a Glanfa Goetre. Mae'r fenter yn annog pobl i wneud ymarfer corff trwy archwilio eu tirwedd a'u treftadaeth leol, ac mae'n rhan o brosiect rhagnodi cymdeithasol Glandŵr Cymru. Cyllidwyd y prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

**Isod:** Pont-y-moel, Camlas Mynwy ac Aberhonddu






## Mae pob milltir – 35 i gyd – o Gamlas Mynwy ac Aberhonddu wedi derbyn statws y Faner Werdd gan Cadwch Gymru'n Daclus

Mae pob milltir – 35 i gyd - o Gamlas Mynwy ac Aberhonddu wedi derbyn statws y Faner Werdd gan Cadwch Gymru'n Daclus, ac mae Cymdeithas Camlas Abertawe wedi derbyn Gwobr Gymunedol y Faner Werdd am y chweched flwyddyn yn olynol.

Ym mis Ionawr, cynhaliwyd diwrnod agored rhithwir ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu ym Mamheilad, gan roi cipolwg i bobl ar y gwaith sydd angen ei wneud i gynnal ein dyfrffyrdd hanesyddol. Cyn gwneud y gwaith atgyweirio yma, fe aethom ati i gau darn milltir a hanner o'r gamlas er mwyn achub y pysgod. Cafodd dros 21 miliwn litr o ddŵr eu draenio o'r gamlas, yn barod i ni weithio ar rai o'r pontydd, cwlfertau a llifddorau. Mae'r fideos diwrnod agored rhithwir yn esbonio agweddau allweddol ar y gwaith, gan gynnwys achub pysgod, arolygon pathewod, atgyweirio pontydd a gwaith i gynnal ac addasu cwlfert cerrig Sioraidd naw metr o hyd at ddiben gwahanol.

Mae ceidwaid lociau a cheidwaid llwybrau tynnu gwirfoddol ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu wedi parhau i helpu i wneud ein dyfrffyrdd yn llefydd gwell i ymweld â nhw, trwy gynnal gweithgareddau fel cefnogi cychwyr, casglu sbwriel, symud rhwystrau i lywio, ac atgyfnerthu waliau arglawdd.

Ym misoedd Mehefin a Gorffennaf buom yn cydweithio ag Amgueddfa ac Oriel Gelf y Gaer i gynnal ymweliadau gan 58 o blant ysgol. Roedd y gweithgareddau dysgu STEM ymarferol yn cynnwys diogelwch dŵr, taith cwch, helpu ceidwad y loc a theithiau tywys sy'n berthnasol i'r cwricwlwm.

**Uchod:** Basn Camlas Aberhonddu



Adroddiad Strategol

- Mae prosiect Camlesi, Cymunedau a Llesiant o amgylch camlas Mynwy ac Aberhonddu a chamlas Maldwyn ym Mhowys wedi derbyn cyllid gwerth £840,432 gan y Rhaglen Datblygu Gwledig. Bydd y prosiect yn gwella mynediad fel bod mwy o bobl leol yn gallu defnyddio'r camlesi. Hefyd, bydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer dehongli, gwella bioamrywiaeth a datblygu gwarchodfeydd natur.
- Rydym wedi sicrhau cyllid gwerth £128,000 gan Gronfa'r Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru trwy Croeso Cymru er mwyn gwella hygyrchedd ym Masn Trefor ar Gamlas Llangollen. Rydym wedi uwchraddio llwybrau, giatiau mynediad a mynedfeydd, gan wneud gwaith tirlunio a phlannu coed er mwyn gwella tir y cyhoedd yn y basn o fewn Safle Treftadaeth y Byd.
- Mae Cymdeithas Camlas Abertawe wedi sicrhau cyllid gwerth £99,620 gan Gronfa'r Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru tuag at brosiect i adfer y loc claddedig yng Nghlydach ar hen safle depo Cyngor Abertawe. Mae Cymdeithas Camlas Abertawe yn berchen ar y safle hwn erbyn hyn ac mae wedi gofyn i'r Ymddiriedolaeth greu partneriaeth i ddatblygu'r prosiect.
- Cawsom gyllid gwerth tua £358,000 gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur ar gyfer ein prosiect Dyfodol Luronium yn Ardal Gadwraeth Arbennig Camlas Maldwyn, sy'n ceisio gwella cyflwr a gwydnwch y gamlas ar gyfer llyriad arnawf, rhywogaeth a warchodir gan Ewrop.

**Isod:** Llanelen, Camlas Mynwy ac Aberhonddu

